# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canolfan Adnoddau Bryntirion**

**Cartref a Chanolfan Ddydd Bryntirion**
**Ffordd Pontrhydfendigaid**
**Tregaron**
**SY25 6JE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canolfan Adnoddau Bryntirion

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mai 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt. Mae cynrychiolwyr y bobl sy'n derbyn gwasanaeth yn nodi bod teimlad teuluol yn y gwasanaeth a gwnaethant ganmol y tîm o staff. Caiff y gweithwyr gofal eu harwain gan gynlluniau personol effeithiol a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio gofalgar, llawn dealltwriaeth rhwng y staff a'r bobl.

Mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf wedi cael ei gau. Mae drysau tân newydd wedi cael eu gosod, mae dwy ystafell ymolchi wedi cael eu hadnewyddu ac nid oes modd i'r bobl fynd i ardal benodol o'r cartref am gyfnod er mwyn gallu cwblhau gwaith yn brydlon yn yr ardal honno. Fodd bynnag, gwelsom nad yw systemau'r darparwr ar gyfer ymateb i faterion cynnal a chadw yn effeithiol ac rydym wedi nodi hyn fel Maes i'w Wella.

Mae'r rheolwr dros dro yn gweithredu mewn ffordd ymarferol ac mae'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn ei barchu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'r wybodaeth a gesglir drwy ei ymweliadau a'i archwiliadau mewnol yn llywio'r adolygiad o ansawdd y gofal, a gynhelir bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu trin ag urddas a pharch. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw mor iach â phosibl am fod y rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau sy'n bwysig iddynt, fel cerdded o amgylch tir y cartref, gwneud eu gweithgareddau hamddenol eu hunain a chwrdd â'u hymwelwyr yn y cartref. Mae ymdeimlad teuluol yn y gwasanaeth ac mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r staff yn gadarnhaol. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gallant gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio diogel a hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a’r cymorth cywir.  Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny, ac maent yn ymddiried yn y rheolwr.

Mae gwaith uwchraddio'r amgylchedd wedi dechrau ac mae'r darparwr yn lleihau'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y bobl. Mae cynllun manwl ar waith i sicrhau bod y gwaith i uwchraddio'r adeilad yn mynd rhagddo'n barhaus. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r bobl yn byw mewn cartref nad yw bob amser yn eu cefnogi i gyflawni eu llesiant gan nad yw systemau cynnal a chadw'r darparwr ar gyfer gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd yn effeithiol. Byddwn yn edrych i weld a yw'r darparwr yn ymateb yn well i faterion sy'n gysylltiedig â'r adeilad yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae gan y bobl lais gan eu bod nhw a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn ymweliadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol â'r gwasanaeth. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu datblygu'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal er mwyn gwneud defnydd gwell o'r wybodaeth sydd ar gael i helpu i wella ansawdd y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cyfeillgar, llawn dealltwriaeth rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“The girls (care workers) are wonderful, you couldn’t ask for better”*. Mae gweithwyr gofal profiadol yn cymryd amser i ddod i adnabod y bobl, i gydnabod eu hanghenion unigol ac i gynnig cymorth sensitif. Mae'r gweithwyr gofal yn gadarnhaol am eu rolau a dywedodd un wrthym, *“The residents are happy and are great fun to work with”.* Mae'r cynrychiolwyr hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth a gynigir yn y gwasanaeth, a dywedodd un wrthym, *“All the carers are very good to mum and they genuinely care for all of the residents”.*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol. Mae'r gwasanaeth wedi dechrau defnyddio hanesion bywyd manwl, llawn gwybodaeth sy'n helpu'r staff i ddod i adnabod y bobl. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu bob tri mis er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl a chaiff eu cyngor ei adlewyrchu yn y cynlluniau. Mae asesiadau risg yn helpu'r bobl i adfer neu gynnal eu hannibyniaeth, ac yn eu helpu hefyd i gadw mor ddiogel â phosibl.

Mae gan y gweithwyr gofal ddigon o amser i ddiwallu anghenion y bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio amyneddgar, llawn dealltwriaeth yn ystod yr arolygiad. Mae'r bobl yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd o ddydd i ddydd fel darllen llyfrau neu bapurau newydd, gwylio'r teledu, cerdded o amgylch tir y cartref a chwrdd ag ymwelwyr. Mae grŵp celf a chrefft lleol yn trefnu ymweliadau wythnosol â'r gwasanaeth a gwnaeth y bobl fwynhau ymweliad gan gôr lleol a ddaeth i ganu yn y cartref yn ddiweddar.

## Yr Amgylchedd

Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr yn dilyn yr arolygiad llawn diwethaf gan fod yr amgylchedd, yn ôl pob golwg, o safon wael. Ers yr arolygiad hwn, mae wedi uwchraddio dwy ystafell ymolchi, wedi gosod drysau tân newydd ac wedi cwblhau'r gwaith a nodwyd gan y swyddog tân lleol. Nid oes modd i'r bobl fynd i'r ardal i fyny'r grisiau yn y cartref ar hyn o bryd er mwyn lleihau effaith y gwaith uwchraddio ar y bobl. Gwnaethom gwrdd ag aelod newydd o dîm eiddo'r darparwr, sydd wedi rhoi cynllun clir ar waith i barhau i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol mwy.

Nid yw'r prosesau cynnal a chadw ar gyfer gwaith atgyweirio o ddydd i ddydd yn effeithiol gan nad yw'r darparwr bob amser yn sicrhau y caiff camau gweithredu eu cymryd yn brydlon i ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â'r adeilad. Mae'n cymryd gormod o amser i ddatrys materion, fel gosod clo newydd ar ddrws yr ystafell ymolchi, a nodwyd mewn archwiliadau eiddo, arolygiadau a chwynion, ac mae hynny'n peri risg i lesiant y bobl. Rydym wedi nodi hyn fel Maes i'w Wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr wella ei amseroedd ymateb i faterion cynnal a chadw parhaus o ddydd i ddydd.

Mae'r bobl yn gartrefol ac yn gyfforddus yn yr ardaloedd mewnol ac allanol gwahanol sydd ar gael ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Caiff yr ardaloedd cymunedol eu defnyddio'n rheolaidd gan y bobl i gymdeithasu â'i gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau a diddanu ymwelwyr. Gall yr unigolion bersonoli eu hystafelloedd â'u lluniau, eu hornamentau a'u dodrefn eu hunain. Mae'r bobl yn mynd allan i dir y cartref drwy gydol y flwyddyn ac yn edrych ymlaen at ailddechrau'r gwaith garddio pan fydd y tywydd yn gynhesach.

Cynhelir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r profion ar gyfer y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r darparwr bellach yn cydymffurfio â'r rheoliadau tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o bump i'r gegin, ac mae'r staff arlwyo yn ymwybodol o anghenion a dewisiadau pawb. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref ffres.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r cartref yn effeithiol ac yn gofyn am adborth ar y gwasanaeth gan y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal bob tri mis. Er gwaethaf yr ymgynghori rheolaidd hwn, ni chaiff ei ddefnyddio'n gyson pan fydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu gwella'r broses o ddadansoddi'r wybodaeth hon, ac o ddadansoddi canlyniadau archwiliadau ac adolygiadau o waith papur, er mwyn llunio adroddiad sy'n helpu i nodi pa agweddau ar y gwasanaeth y gellir eu gwella. Er bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth a'r amgylchedd yn dda, mae darparwr y gwasanaeth yn aml yn araf wrth ymateb i gamau gweithredu ac argymhellion a nodwyd.

Mae'r Rheolwr yn gweithredu mewn ffordd ymarferol ac mae'n adnabod y bobl yn dda iawn. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio sensitif, llawn dealltwriaeth rhwng y rheolwr a'r bobl drwy gydol yr arolygiad. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth gefnogol a geir yn y gwasanaeth. Dywedodd un aelod o deulu wrthym *“[Manager] is excellent, approachable and you can talk to her”.* Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ati ac yn barod i helpu. Dywedodd un *“[Manager] is very good and always there for us and the residents have the confidence to talk to her when they need something”.*

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn gallu trafod unrhyw beth â'u rheolwr a dywedodd un *“[Manager] is very good and always there for us and the residents have the confidence to talk to her when they need something”.* Mae trafodaethau â'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu ac maent yn hyderus i roi gwybod am unrhyw faterion yn briodol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n cefnogi arferion da.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae’r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau newydd o staff yn cael cyfnod sefydlu cynhwysfawr, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae amrywiaeth o hyfforddiant E:Ddysgu a wyneb yn wyneb yn helpu pob aelod o'r staff i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol’ ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

Mae digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal sefydledig wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl ac maent yn deall eu hanghenion a'u

dewisiadau. Dywedodd un cynrychiolydd wrthym *“The care is excellent and they are like family to mum and us”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi cwblhau unrhyw waith i ymdrin â'r materion a nodwyd fel maes i'w wella o ran yr amgylchedd yn yr arolygiad llawn diwethaf. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 43 | Nid yw systemau cynnal a chadw'r darparwyr yn effeithiol ac mae angen gwella'r prosesau er mwyn sicrhau y caiff gwaith atgyweirio mewn perthynas â'r adeilad ei gwblhau'n brydlon. | Newydd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/07/2024